Estyn

# Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ysgol Y Berllan Deg

Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2025

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

# Crynodeb

Wrth galon yr ysgol mae arweinyddiaeth fwriadus a staff ymroddedig sy'n gweithio gyda'i gilydd i greu amgylchedd dysgu gofalgar, croesawgar ac ysbrydoledig. Mae'r pennaeth a'r tîm arwain yn gosod cyfeiriad strategol addas, gan feithrin cymuned hapus lle mae parch a hunaniaeth Gymreig yn cael eu gwerthfawrogi.

Mae disgyblion ar draws yr ysgol yn ymddwyn yn garedig ac yn aeddfed, gan ddangos parch tuag at staff ac ymwelwyr. Mae ethos cynhwysol yr ysgol yn sicrhau bod pob disgybl yn teimlo'n ddiogel ac yn cael y gefnogaeth sydd ei hangen i lwyddo. O ganlyniad, mae'r  rhan fwyaf o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn gwneud cynnydd da. Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn derbyn cymorth pwrpasol, gyda staff yn cydweithio'n agos â gwasanaethau allanol i sicrhau cynnydd buddiol.

Mae staff yn ymrwymo i ddarparu profiadau dysgu cyfoethog, gan gynnwys ymweliadau addysgol a gweithgareddau creadigol fel prosiectau theatr a chyfleoedd i berfformio, sy'n cefnogi dealltwriaeth a diddordeb disgyblion. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos agweddau gadarnhaol tuag at ddysgu, gan ymfalchïo yn eu hysgol a'u cymuned. Mae'r athrawon yn cydweithio'n agos ac yn cynllunio gweithgareddau dysgu diddorol sydd wedi eu cynllunio ar gyfer ystod briodol o lefelau cyrhaeddiad. Er hynny, nid ydynt bob amser yn herio disgyblion yn ddigonol i sicrhau'r  cynnydd gorau.

Mae gan yr ysgol drefniadau monitro a chynllunio ar gyfer gwelliant priodol sy'n adnabod rhai elfennau allweddol o'r ddarpariaeth sydd angen eu gwella yn effeithiol. Er hynny, nid ydynt bob amser yn gosod camau gweithredu digon manwl nac yn arfarnu effaith camau gweithredu ar wella ansawdd addysgu a dysgu. O ganlyniad, mae hanes gwelliant yr ysgol yn anghyson. Mae'r llywodraethwyr yn cymryd rhan ymarferol ym mywyd yr ysgol ac yn gweithio'n frwdfrydig er mwyn gwella dealltwriaeth y gymuned ehangach o fanteision addysg Gymraeg.

Mae'r ysgol yn rhoi pwyslais cryf ar ddatblygu medrau Cymraeg  disgyblion, gan sicrhau bod y Gymraeg yn rhan naturiol o fywyd pob dydd. Mae hefyd yn cefnogi rhieni gyda gwersi Cymraeg i hyrwyddo defnydd o'r iaith gartref. Yn ogystal, mae medrau mathemateg a llythrennedd yn cael eu datblygu'n effeithiol, gyda chyfleoedd i ddysgu drwy brofiadau ymarferol a phroblemau bywyd go iawn. Er hynny, mae tuedd i'r athrawon or-arwain a chyfyngu cyfleoedd i ddisgyblion gymryd cyfrifoldeb am eu dysgu er mwyn bod yn ddysgwyr annibynnol.

Mae'r ysgol yn gweithio'n agos gyda'i chlwstwr i rannu arferion da ac mae trosglwyddo i'r ysgol uwchradd wedi'i drefnu'n dda, gan baratoi disgyblion yn hyderus ar gyfer y cam nesaf yn eu haddysg.

# Argymhellion a beth sy'n digwydd nesaf

**Rydym wedi gwneud tri argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella:**

A1 Cryfhau arweinyddiaeth strategol a gwella gweithdrefnau hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwelliant er mwyn cryfhau a chysoni darpariaeth

A2 Darparu cyfleoedd cyson i ddisgyblion gymryd cyfrifoldeb am eu dysgu a'u datblygu'n ddysgwyr annibynnol

A3 Cysoni arferion addysgu effeithiol ar draws yr ysgol a chodi disgwyliadau staff i ddarparu her gyson ar gyfer pob disgybl

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Adroddiad llawn

Os hoffech ddarllen mwy am werthusiad Estyn o'r ysgol, dilynwch y ddolen hon i'r adroddiad llawn.

© Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 08/05/2025